

9 Ward Porth Tywyn, Uned Polisi Heol Newydd

9.1 Disgrifiad o'r ardal

Ceir yn Uned Polisi Heol Newydd y dalgylch sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin Nant Dyfatty. Mae'r cwrs dŵr yn tarddu i'r gogledd o Borth Tywyn ar Fynydd Pen-bre. I ddechrau mae'n llifo mewn cwrs dŵr agored naturiol nes cyrraedd tafarn y Pemberton Arms. Wrth sgrin malurion y Pemberton Arms mae'r cwrs dŵr yn rhannu'n gwrs dŵr naturiol a sanel lleddfu llifogydd. Bydd llifoedd isel yn parhau ar hyd y cwrs dŵr naturiol i ail sgrin malurion (Llifddor Dolau) yn y Parc Coffa a bydd dŵr gormodol yn cael ei ddargyfeirio i gwlfwr lleddfu 1500mm o ddiamedr dros gored isel sy'n dilyn y llwybr troed i'r parc. Yn y Parc Coffa mae diamedr y cwlfwr yn cynyddu i 1800mm ac mae'n parhau i'r de ar hyd yr hen dramffordd i Heol y Bont. O'r fan hon mae'n llifo o dan Heol yr Orsaf nes iddo ymuno â'r cwlfwr lleddfu a gollwng i Harbwr Porth Tywyn. Yn y Parc Coffa mae siambr ar y cwlfwr lleddfu a fydd yn gollwng llifoedd eithriadol o uchel o dan y parc tua'r dwyrain. Mae hefyd gwlfwr gorlif digwyddiadau eithafol arall sy'n mynd â dŵr trwy Borth Tywyn.

9.2 Pam y mae'r ardal hon yn Uned Polisi Perygl Llifogydd?

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2013) yn nodi'r ardal hon fel un sydd mewn perygl llifogydd. Mae'r mapiau llifogydd o ddŵr wyneb hyn yn ddefnyddiol o ran nodi'r perygl llifogydd o gyrsiau dŵr bach.

Y perygl pennaf yn yr Uned Polisi hon yw rhwystro'r sgriniau malurion neu gwlfwr gan achos llifogydd. Mae digwyddiadau blaenorol wedi amlygu'r ffaith y bydd llifoedd llifogydd yn dilyn y topograffi ac achosi llifogydd yn y Parc Coffa ac yn gorlifo tuag at Heol Newydd. Mae hefyd effaith fân iawn gorlenwi gollyngfa'r Marina oherwydd penllanw, ond dibwys yw hon.

Mae'r mapiau llifogydd dŵr wyneb hefyd yn dangos dŵr yn cael ei gludo gan y rhwydwaith priffyrdd lleol a allai hefyd waethgu'r llifogydd pe bai draeniau'r priffyrdd yn cael eu rhwystro neu'n mynd yn orlawn.

9.3 Enghreifftiau o lifogydd

- 1983: Llifogydd mewn eiddo preswyl ond collwyd manylion y digwyddiad.
- 1995: Cafwyd effaith wael ar ardal Heol Newydd ym Mhorth Tywyn o ganlyniad i rwystro'r sgrin malurion wrth y Pemberton Arms.

9.4 Gwaith cyfalaf ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'i gyflawni gan Gyngor Sir Caerfyrddin

- 1997: Gwella sgrin malurion y Pemberton Arms.
- 1998: Gwella sgrin malurion Llifddor Dolau.
- 1999: Adeiladwyd byndiau pridd o gwmpas y Parc Coffa i ddal yn ôl unrhyw ddŵr llifogydd sy'n dianc o'r cwlfwr.

9.5 Asedau amddiffyn rhag llifogydd

Sgrin Malurion y Pemberton Arms	Sgrin Malurion Llifddor Dolau	Cwrs Dŵr Nant Dyfatty (Glan yr afon - Llifddor Dolau)
Llifddor Dolau	Siambr Gorlif Llifddor Dolau	Cwlfwr Rhyngol 1200 Llifddor Dolau
Cwlfwr Blwch Llifddor Dolau	Siambr Gorlif Llifddor Dolau	Gollyngfa Dyfatty Terrace
Arglawdd rhag Llifogydd y Parc Coffa		

9.6 Gwaith a chynnal a chadw rheolaidd

Maes	Gwaith a wnaethpwyd / wneir	Pryd
Nant Dyfatty	Clirio malurion o'r cwrs dŵr a thorri glaswellt	Pob blwyddyn
Sgriniau Malurion Llifddorau Dolau a'r Pemberton Arms	Archwiliad T98 ffurfiol	Pob blwyddyn
	Rheoli malurion	Pob wythnos yn y gaeaf Pob mis yn yr haf
Pob cwlfwr	Arolwg camera TCC	2018
Llifddor Dolau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Gollyngfa Dyfatty Terrace	Archwiliad T98 ffurfiol	Pob blwyddyn
Arglawdd rhag Llifogydd y Parc Coffa	Archwiliad T98 ffurfiol	Pob blwyddyn
	Rheoli llystyfiant	Pob blwyddyn

9.7 Gwaith arfaethedig yn y dyfodol

Clirio'r silt o'r cwlfwr o dan y Parc Coffa.

Gwerthuso opsiynau o ran rheoli rhywogaethau goresgynnol ar hyd Nant Dyfatty.

9.8 Perygl Llifogydd

9.8.1 Map 1: Cyfanswm eiddo

Mae Map 1 drosodd yn dangos data ar gyfanswm yr eiddo sydd mewn perygl llifogydd. Gall y cyfanswm eiddo gynnwys anheddau, garejys, mangreoedd masnachol, mangreoedd diwydiannol a strwythurau tebyg.


9.8.2 Map 2: Anheddau a Gwasanaethau

Mae Map 2 isod yn dangos data ar yr eiddo preswyl a'r gwasanaethau sydd mewn perygl llifogydd.

9.8.3 Map 3: Cofrestr Cymunedau mewn Perygl

Dyma'r gwaith mapio llifogydd diweddaraf gan Lywodraeth Cymru. Mae'r set ddata hon yn dangos yr holl eiddo sydd mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb mewn digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 100.


	Nifer yr unedau a nodir fel rhai mewn perygl llifogydd		
	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 30	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 100	Digwyddiad storm gyda thebygolrwydd o 1 mewn 1000
Map 1 Cyfanswm Eiddo	77	115	255
Map 2 Anheddau a Gwasanaethau	60	90	206
Map 3 Cofrestr Cymunedau mewn Perygl	Amh.	61	Amh.



Map 1 - Pob eiddo
Allwedd


- Uned Polisi
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q30
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 30
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q100
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 100
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q1000
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 1000
- Q30 Pob dosbarth eiddo
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- Q100 Pob dosbarth eiddo
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- Q1000 Pob dosbarth eiddo
Dynder llifogydd 150mm neu fwy

Ward Porth Tywyn
Uned Polisi Heol Newydd



Map 2 - Anheddau a Gwasanaethau

- Uned Polisi
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q30
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 30
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q100
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 100
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q1000
Amlinell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad stom 1 mewn 1000
- Q30 - Anheddau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- Q100 - Anheddau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- Q1000 - Anheddau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- ▲ Q30 - Gwasanaethau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- ▲ Q100 - Gwasanaethau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy
- ▲ Q1000 - Gwasanaethau
Dynder llifogydd 150mm neu fwy



Map 3 - Cofrestr Cymunedau mewn Perygl

Allwedd

- Uned Polisi
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q30
Aminell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad storm 1 mewn 30
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q100
Aminell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad storm 1 mewn 100
- Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddarau Q1000
Aminell llifogydd dŵr wyneb
Tebygolrwydd digwyddiad storm 1 mewn 1000
- ◆ Cofrestr - Glaw
- ◆ Cofrestr - Afonydd

